



Asiantaeth
Iechyd Anifeiliaid
a Phlanhigion

**Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg ar
gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a Molysgiaid
Dwygragennog Byw gan Swyddogion
Ardystio Cymwys ym maes Bwyd o safleoedd
sy'n ddarostyngedig i Reoliad 853/2004 fel
sefydliadau bwyd cymeradwy
Awst 2021**



(h) Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Diogelu Data:

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Personol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn FishEHC@defra.gov.uk

www.gov.uk/apha

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

Cynnwys

Trosolwg	4
Gofynion yr UE a'r DU	5
Awdurdodiad, hyfforddiant a chymwyseddau Swyddogion Ardystio a all ymgymryd â RBFEC	6
Gwiriadau Allforion Seiliedig ar Risg	7
Cefndir.....	7
Dull RBFEC	7
Rhaid i'r Tystysgrifau Iechyd Allforio gwreiddiol fynd gyda'r llwythi	9
Anfon manylion sydd eu hangen er mwyn rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio – Datganiadau busnes.....	9
Lefelau risg ac amlder archwilio gofynnol y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd	10
Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Gradd Ymyrryd Sefydliadau Bwyd.....	11
Haparchwiliadau RBFEC o lwyth allforio.....	14
Rhwymedigaethau Cyffredinol a materion eraill.....	15
Sicrhau Ansawdd a chofnodion	15
Atodiad I – Datganiad enghreifftiol gan uwch-gynrychiolydd Gweithredwr Busnes Bwyd ..	16
Atodiad II – Gofynion Tystysgrif yr UE	17

Trosolwg

1. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi trosolwg o'r dull seiliedig ar risg o ardystio cynhyrchion pysgodfeydd (gan gynnwys pysgod ffres) a Molysgiaid Dwygragenog Byw i Swyddogion Ardystio ac Awdurdodau Lleol ym Mhrydain Fawr a gallant gael eu defnyddio gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd wrth iddynt ardystio allforion o Brydain Fawr i'r Undeb Ewropeaidd a, lle y bo'n berthnasol, symudiadau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Mae Prif Swyddogion Milfeddygol y DU wedi cytuno ar sail asesu risg i ardystio ac archwilio cynhyrchion pysgodfeydd a physgod cregyn i'w hallforio i'r UE a symudiadau i Ogledd Iwerddon o dan Brothocol Gogledd Iwerddon.
2. Drwy Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC) gall allforion perthnasol gael eu hardystio gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ar sail asesiadau risg a gynhelir yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a ategir gan ddatganiadau gan Weithredwyr Busnesau Bwyd.
3. Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yw Swyddogion Ardystio nad ydynt yn filfeddygon ac sydd wedi'u dynodi gan yr awdurdod cymwys perthnasol yn seiliedig ar eu cymhwysedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
4. Gall Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd lofnodi Tystysgrifau Iechyd Allforio'r UE ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid, gan gynnwys cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragenog byw. Mae hyn yn gymwys pan fydd angen Tystysgrifau Iechyd Allforio o bosibl o dan Brothocol Gogledd Iwerddon i hwyluso masnach mewn cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragenog byw i Ogledd Iwerddon. Gall Milfeddygon Swyddogol â chymwysterau priodol hefyd ardystio'r cynhyrchion hyn, ond disgwylir i'r rhan fwyaf o gynhyrchion pysgodfeydd sy'n mynd i'r UE a Gogledd Iwerddon gael eu hardystio gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd, sy'n Swyddogion Ardystio mewn Awdurdodau Lleol. Dim ond ardystio gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd y mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ef.
5. O 21 Awst 2021 ymlaen, ni fydd Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yn gallu lofnodi Tystysgrifau Iechyd Allforio'r UE ar gyfer anifeiliaid dyframaeth byw a restrir (Rheoliad (UE) 2018/1882), anifeiliaid dyfrol a restrir wedi'u casglu â llaw o'r gwyllt na chynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hyn y bydd angen eu prosesu ymhellach¹ yn yr UE, neu a gaiff eu prosesu ymhellach yn yr UE, cyn i bobl eu bwyta. Mae Rheoliad (UE) 2020/2235, yn ei gwneud yn ofynnol i Filfeddyg Swyddogol lofnodi'r Tystysgrifau Iechyd Allforio hyn. Bydd y Dystysgrif Iechyd Allforio benodol a'i Nodiadau Canllaw yn nodi ble y gall Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd lofnodi'r Dystysgrif Iechyd Allforio.
6. Gall yr egwyddorion seiliedig ar risg a amlinellir yn y canllawiau hyn fod yn gymwys i allforion i'r UE, neu symudiadau i Ogledd Iwerddon, yn uniongyrchol o'r

safle cynhyrchu ac i allforion drwy hwb logisteg. Gall yr egwyddorion hefyd fod yn gymwys i symud cynnyrch o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr i'w allforio ymlaen i'r UE/yn ôl i Ogledd Iwerddon drwy hwb. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar allforion sy'n dod yn uniongyrchol o'r safle cynhyrchu, h.y. (o safle cynhyrchion pysgodfeydd ffres neu ganolfan anfon molysgiaid dwygragenog byw). Pan gaiff cynhyrchion eu hallforio drwy hwb logisteg, dylid hefyd gyfeirio at y nodiadau canllaw ar Dystysgrifau lechyd Allforio ar gyfer Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid oddi ar y safle cynhyrchu gwreiddiol.

7. Nid yw ardystio Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid yn swyddogol gan Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yn ddyletswydd statudol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, ar gyfer ardystiadau penodol yn y Tystysgrifau lechyd Allforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd a molysgiaid dwygragenog byw mae angen asesu cydymffurfiaeth â Rheoliadau Hylendid Bwyd (852/2004 ac 853/2004) a'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (UE) 2017/625). Felly, mae RBFEC yn adeiladu ar reolaethau swyddogol sydd o fewn cwrpas y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
8. Fodd bynnag, mae'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol¹ yn cyfeirio at yr holl weithgarwch ardystio allforion swyddogol fel math o archwiliad swyddogol ac y dylid defnyddio unrhyw dasgau o'r fath a'u canlyniad a hysbysu Awdurdodau Cymwys perthnasol ohonynt er mwyn cyfrannu at y rhaglen ehangach ac asesiadau o reolaethau hylendid swyddogol. Felly, caiff archwiliadau o lwythi allforio eu hystyried yn weithgareddau swyddogol er nad ydynt yn rhan o gwmpas y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Gofynion yr UE a'r DU

9. Rhaid i'r broses a'r fethodoleg ardystio allu bodloni archwilwyr domestig a rhyngwladol sy'n craffu arnynt. Mae'r DU yn disgwyl safonau uchel gan wledydd rydym yn caniatáu iddynt allforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i ni. Yn yr un modd, mae rheolau'r UE yn ei gwneud yn ofynnol i Drydydd Gwledydd sy'n masnachu â'r UE roi gweithdrefnau a mesurau diogelu ar waith i sicrhau bod gweithgarwch ardystio allforion o leiaf o safon a lefel gyflawni debyg i weithdrefnau ardystio a gofynion cynhyrchu yn yr UE.
10. Mae cytundeb y Prif Swyddogion Milfeddygol i roi system Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg (RBFEC) ar waith ac ar wahân, ofynion yr UE mewn perthynas â systemau ardystio allforion Trydydd Gwledydd, yn golygu bod hyfforddiant priodol, prosesau, fframwaith asesu risg a rheolaethau Awdurdodau Cymwys Canolog yn bodoli, gan gynnwys trefniadau i sicrhau ansawdd y system ardystio allforion.
11. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â hyfforddiant, gofynion cyfreithiol a chanllawiau eraill yng nghyd-destun ardystio allforion i'r UE. Dylai Swyddogion

Ardystio fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol ynghylch rhoi tystysgrifau, megis y rhai a geir yn Rheoliad (UE) 2017/625 Erthyglau 88 ac 89, a Rheoliad (UE) 2019/628 Erthygl 3 (a nodir yn Atodiad II).

12. Bydd Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig yn monitro'r RBFEC yng ngoleuni perthynas fasnachu newydd y DU â'r UE; gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon; profiad ymarferol o roi'r system ar waith; cydymffurfiaeth Swyddogion Ardystio â'r gweithdrefnau; ac unrhyw ddatblygiadau rhyngwladol eraill, a gallant gyflwyno newidiadau i'r broses ardystio allforion seiliedig ar risg, yn ôl yr angen.

Awdurdodiad, hyfforddiant a chymwyseddau Swyddogion Ardystio a all ymgymryd â RBFEC

13. Dim ond Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd sydd wedi'u 'dynodi' gan APHA a all ymgymryd â RBFEC ym Mhrydain Fawr. Dim ond Swyddogion ALLau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyso a nodir yn y Polisi Awdurdodi Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ym Mhrydain Fawr a gaiff eu hawdurdodi. Y teitl swyddogol ar Swyddogion awdurdodedig yw 'Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd'.
14. Dim ond Swyddog Ardystio ym maes Bwyd sydd hefyd yn swyddog cymwys ym maes bwyd, neu, os nad yw'n gwbl gymwys eto, sy'n gweithio o dan gyfarwyddyd swyddog cwbl gymwys ym maes bwyd, a all lofnodi Tystysgrifau Iechyd Allforio. Fodd bynnag, dim ond swyddog cwbl gymwys ym maes bwyd sy'n gallu cynnal haparchwiliadau o lwythi allforio. Gall Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd ddefnyddio Swyddogion Cymorth Ardystio fel rhan o'r tîm ardystio yn amodol ar y cyfyngiadau sy'n gymwys i rôl Swyddogion Cymorth Ardystio.
15. Mae APHA yn bwriadu cysoni'r hyfforddiant a'r broses ddynodi i Filfeddygon Swyddogol a Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd maes o law. Bydd hyn ar ffurf modiwl hyfforddi ar-lein a fydd yn arwain at gymhwyster Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd.

Gwiriadau Allforion Seiliedig ar Risg

Cefndir

16. Y dull gweithredu safonol cyn rhoi unrhyw Dystysgrif Iechyd Allforio swyddogol yw archwilio'r safle, ac asesu'r prosesau ac adolygu'r cofnodion perthnasol ynghyd â'r llwyth er mwyn penderfynu a yw'n bodloni gofynion y dystysgrif benodol. Mae'n cynnwys gwirio prosesau, meintiau, labeli a manylion adnabod, a gall gynnwys manylion am unrhyw gynhwysydd llongau, unrhyw seliau a ddefnyddir a manylion y cyfrwng cludo yn ogystal â tharddiad rhannau cyfansoddol neu rannau sy'n cyfrannu at y llwyth.
17. Mae Erthygl 88 o Reoliad Rheolaethau Swyddogol 2017/625 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y sail y caniateir i Swyddog Ardystio Iofnodi'r Dystysgrif Iechyd Allforio berthnasol, h.y. ...ffeithiau a data sy'n berthnasol i ardystio a **gafwyd o systemau rheolaeth y gweithredwyr eu hunain, wedi'u hategu ac wedi'u cadarnhau gan ganlyniadau rheolaethau swyddogol rheolaidd**, lle mae'r swyddog ardystio wedi'i fodloni felly y cydymffurfir â'r amodau ar gyfer rhoi'r dystysgrif swyddogol.

Dull RBFEC

18. Nod y dull Ardystio Allforion Pysgod Seiliedig ar Risg yw rhoi Erthygl 88 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol ar waith. Mae'n gwneud hyn drwy asesu safleoedd a gweithredwyr perthnasol yn seiliedig ar ganlyniadau rheolaethau swyddogol rheolaidd. Y prif asesiad a ddefnyddir yw'r asesiad a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd priodol, fel y nodir isod. Fodd bynnag, mae asesiadau risg a gynhelir at ddibenion allforio yn wahanol i unrhyw archwiliadau statudol a gynhelir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
19. Fframwaith y Rheolaethau Swyddogol, fel y caiff ei gyfleu a'i roi ar waith gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, yw'r sail ddogfennol ar gyfer ardystio'n seiliedig ar risg. Mae angen cefnogi hyn drwy gofnodi'r canlyniad (a'r camau a gymerir fel y bo'n briodol) ar gyfer unrhyw archwiliadau o allforion a gynhelir.

20. Y dull hwn yw'r sail hefyd i Swyddogion Bwyd Arweiniol ganiatáu i swyddogion ALLau¹ sy'n Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd dynodedig ac aelodau o'u tîm sy'n gweithio tuag at y Dystysgrif Uwch mewn Rheolaethau Bwyd helpu i ardystio cydymffurfiaeth ag ardystiadau hylendid tystysgrifau cynhyrchion pysgodfeydd neu folysgiaid dwyragennog byw. Mae hyn yn golygu nad oes angen i'r Swyddog Bwyd Arweiniol ei hun fod wedi cynnal archwiliadau perthnasol neu fod wedi bod yn bresennol yn y safle cynhyrchu, prosesu neu anfon cymeradwy.
21. Gellir rhoi tystysgrifau allforio ar gyfer Gweithredwyr Busnesau Bwyd y cynhaliwyd asesiad risg ohonynt heb archwiliad cychwynnol ychwanegol ar y safle sy'n canolbwyntio ar allforio cyn y llwyth cyntaf neu archwiliadau cyn pob llwyth dilynol. Fodd bynnag, yn achos busnesau nad ydynt yn cyrraedd y safonau neu nad ydynt wedi sefydlu'r lefel o ymddiriedaeth a nodir isod, dylid cynnal archwiliad cychwynnol er mwyn ardystio'r llwyth cyntaf ac, yn dilyn hyn, rhaid i'r haparchwiliadau allforion priodol gael eu cynnal yn unol â'r canllawiau hyn.
22. Mae'n rhaid i Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd arfer eu barn broffesiynol – ochr yn ochr â'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael a'r Dystysgrif lechyd Allforio benodol gyda'i Nodiadau Cyfarwyddyd – i benderfynu ar natur a manylion unrhyw archwiliad o'r safle a'r llwyth sydd i'w allforio. Y bwriad yw y dylai'r swyddog ardystio ddefnyddio'r archwiliad i fodloni ei hun bod y llwyth sy'n cael ei archwilio yn bodloni holl ofynion y Dystysgrif lechyd Allforio benodol. Gall unrhyw archwiliadau dilynol ar yr un safle ac ar gyfer yr un nwyddau gael eu diwygio (e.e. gallant fod yn wahanol o ran amser a manylion) ond rhaid i swyddogion bob amser allu bodloni eu hunain bod gofynion y Dystysgrif lechyd Allforio yn cael eu bodloni neu'n parhau i gael eu bodloni.
23. Gall Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd arfer eu barn broffesiynol i gynnal archwiliadau'n amlach na'r hyn a nodir yn y canllawiau (a nodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon) ond ni chaniateir iddynt eu cynnal yn llai aml na'r cyfnodau a nodir.
24. Pan fo ymchwiliad yn cael ei gynnal i gydymffurfiaeth berthnasol â rheolaethau swyddogol neu ofynion y Dystysgrif lechyd Allforio neu pan fo pryder yn codi ynghylch hynny, ni ddylid rhoi tystysgrif o dan RBFEC nes bod y risgiau wedi cael eu hailasesu. Gall Tystysgrif Allforio lechyd gael ei rhoi o hyd o dan yr amgylchiadau hyn, ar yr amod y caiff pob llwyth allforio ei archwilio'n briodol a'i ddilysu'n un sy'n cydymffurfio. Gellir defnyddio'r archwiliadau hyn i ailsefydlu'r lefel o ymddiriedaeth neu gydymffurfiaeth sydd ei hangen. Mae'r tabl yn y ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar gynnal archwiliadau'n amlach.

¹ Swyddogion sydd wedi cwblhau'r rhan academiaidd o'r Dystysgrif Uwch mewn Rheolaethau Bwyd ac sy'n gweithio tuag at ennill y Dystysgrif Uwch mewn Rheolaethau Bwyd.

Rhaid i'r Tystysgrifau Iechyd Allforio gwreiddiol fynd gyda'r llwythi

25. Rhaid i dystysgrifau copi caled gwreiddiol gael eu rhoi i'r allforiwr eu cyflwyno yn y Safle Rheoli Ffiniau wrth gyrraedd yr UE neu yn y Man Cyrraedd yng Ngogledd Iwerddon. Rhaid i'r allforiwr a'r Swyddogion Ardystio gytuno ar logisteg hyn yn lleol.
26. Efallai na chaiff Tystysgrif Iechyd Allforio swyddogol ei rhoi ar ôl i'r llwyth adael 'rheolaeth' yr awdurdod cymwys, a gaiff, yn yr achos hwn, ei gynrychioli gan y Swyddog Ardystio ar yr adeg y caiff y dystysgrif ei throsglwyddo. Mae hwn yn un o ofynion sylfaenol yr UE². Deallir bod 'rheolaeth' yn golygu cyfle i ymyrryd neu'r posibilrwydd o arfer rheolaethau swyddogol. Yng nghyd-destun allforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, mae'n golygu'r gallu i beidio â rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio er mwyn atal risg i'r wlad sy'n mewnfario neu ranbarth y gyrchfan.
27. Ni chaiff Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd roi tystysgrifau'n 'ôl-weithredol'. Ni ddylid caniatáu i lwyth adael glannau'r DU o dan unrhyw amgylchiadau cyn bod tystysgrif wedi'i llofnodi ar gael. Yr allforwyr sy'n gyfrifol am unrhyw allforion nad ydynt yn cydymffurfio, a nhw fydd yn wynebu'r canlyniadau (allforion yn cael eu gwrthod neu'u dinistrio). Dylai Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd amrywio'r llwythi y maent yn eu dewis ac yn eu harchwilio ar hap er mwyn cadarnhau nad yw hyn yn digwydd.

Anfon manylion sydd eu hangen er mwyn rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio – Datganiadau busnes

28. Pan na fydd Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd yr ALI yn archwilio'r llwyth ar y safle, mae'n rhaid i'r Gweithredwr Busnes Bwyd a/neu'r allforiwr roi'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gwblhau'r dystysgrif i'r Swyddog Ardystio.
29. Mae'n rhaid i bob allforiwr, neu Weithredwr Busnes Bwyd, wneud datganiadau archwiliadwy llofnodedig, neu awdurdodi un neu fwy o bersonau i wneud datganiadau ar ei ran. Rhaid i'r person sy'n gwneud y datganiad fod mewn rôl ddigon lefel uchel a bod yn gyfrifol am brosesu, cynhyrchu ac anfon y nwyddau ac am y manylion sy'n cael eu datgan.

² Rheoliad Gweithredu 2019/628 yr UE – Erthygl 3 (5) ac Erthygl 4 (3)

30. Rhaid cael datganiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys y manylion perthnasol ac sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth honno ac unrhyw rwymedigaethau a allai godi yn sgil hynny. Gall datganiad gynnwys manylion mwy nag un llwyth, ond rhaid i bob llwyth a gaiff ei ardystio ar sail risg gael ei gefnogi gan ddatganiad. Atodir templed datganiad yn Atodiad I y gellir ei newid at ddefnydd Awdurdod Lleol, cyhyd â bod y manylion perthnasol a'r cadarnhadau yn ofynnol. Argymhellir mai dim ond gyda mewnbwn gan bersonau cymwys yn gyfreithiol sy'n gwasanaethu'r Awdurdod Lleol perthnasol y dylid gwneud newidiadau.

Lefelau risg ac amllder archwilio gofynnol y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd

31. Dim ond ar sail Aseiad Risg allforio cofnodedig ar gyfer pob safle 'allforio' a gynhelir gan Swyddog Ardystio cwbl gymwys ym maes bwyd o'r Awdurdod Lleol perthnasol y gellir defnyddio RBFEC. Rhaid cynnal haparchwiliadau o lwythi allforio a'r dystiolaeth gysylltiedig ar gyfer y llwythi hynny er mwyn dangos diogelwch a monitro system ardystio allforion RBFEC.
32. Ar gyfer sefydliadau bwyd a gymeradwywyd yn unol ag 853/2004 yn y DU sy'n ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Hylendid perthnasol a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, gall archwiliadau (statudol) a gynhelir gan yr ALI roi sail i benderfynu pa mor aml y dylid cynnal archwiliadau (anstatudol) o lwythi allforio. Nodir hyn yn y tabl isod.
33. Os caiff anghysonderau, achosion o ddiffyg cydymffurfio neu broblemau perthnasol eraill eu nodi mewn perthynas â'r allforiwr, y Gweithredwr Busnes Bwyd neu'r llwyth sydd i'w allforio, ni ddylid parhau i roi Tystysgrifau Iechyd Allforio o dan RBFEC. Rhaid gwrthod rhoi Tystysgrif Iechyd Allforio neu gynnal mwy o archwiliadau ffisegol ar unwaith. Dylai'r ALI benderfynu a ddylid cynnal archwiliadau'n amlach ar gyfer pob llwyth sy'n gysylltiedig â'r allforiwr neu'r Gweithredwr Busnes Bwyd yn unol ag aseiad risg newydd. Dylid rhoi'r ailddosbarthiad hwn ar waith ar y cyfle cyntaf posibl ac ni ddylid oedi tan yr archwiliad statudol dilynol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd na dyddiad dyledus y dosbarthiad.

Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd – Gradd Ymyrryd Sefydliadau Bwyd

Nodiadau – dylai swyddogion ystyried sgoriau perthnasol y busnes allforio o ran y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a dewis yr amllder archwilio uchaf. Y cyfnod mwyaf y gellir ei adael rhwng haparchwiliadau yw chwe mis. Mae diwrnod allforio yn golygu unrhyw ddiwrnod pan gaiff nwyddau eu prosesu a/neu eu llwytho a'u cludo at ddibenion allforio.

System sgorio hylendid bwyd y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd:	
Rhan 2: y lefel gydymffurfiaeth ar hyn o bryd	
Rhan 3: Hyder yn y gweithdrefnau rheoli	
Sgôr paramedr unigol	Amllder (hap) archwiliadau allforio ar gyfer allforwyr
Y ddwy sgôr paramedr yn uwch na 10: Noder – dylai swyddogion ystyried bod amgylchiadau sgoriau sy'n fwy na 10 yn sail dros ddiffyg cydymffurfiaeth ag ardystiad y Dystysgrif lechyd Allforio sy'n seiliedig ar risg. Rhaid ystyried pob achos ar sail ei amgylchiadau unigol. (Risg uchel)	Pob llwyth neu wrthod paratoi a rhoi Tystysgrifau lechyd Allforio yn gyfan gwbl. Er mwyn rhoi Tystysgrif lechyd Allforio, rhaid i Swyddogion fodloni eu hunain drwy gynnal archwiliadau penodol o'r safle a'r nwyddau bod pob agwedd ar ardystiad y Dystysgrif lechyd Allforio yn foddhaol ar gyfer pob llwyth.
Nid yw'r naill sgôr paramedr na'r llall yn uwch na 10: h.y. 'cydymffurfio'n gyffredinol' (Risg ganolig)	1 fesul 10 diwrnod allforio
Rhan 2 ddim yn uwch na 10 Sgôr Rhan 3 ddim yn uwch na 5 (Risg isel)	1 fesul 60 diwrnod allforio

Dim sgôr yn uwch na 5

(Risg Isel i Isel lawn)

1 fesul 180 diwrnod allforio (bob 6 mis, sef y bwlch mwyaf posibl)

At ddiben cyfeirio: daw o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Rhan 2 sgôr 10:

Rhywfaint o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant* nas ystyrir yn achosion sylweddol o ran risg (ond a all fynd yn sylweddol os nad eir i'r afael â nhw). Mae safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella.

Rhan 2 sgôr 5:

Safon dda o gydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a'r codau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant* gyda dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Rhan 3 sgôr 10:

Cofnod boddhaol o gydymffurfiaeth.

Mynediad at ffynhonnell o gyngor perthnasol ar ddiogelwch bwyd a/neu Ganllawiau Arfer Dda neu gynlluniau sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes. Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Wedi rhoi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol ar waith neu'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd wedi'u dogfennu, sy'n gymesur â'r math o fusnes bwyd. Bydd angen i swyddogion sicrhau bod busnes yn dangos ei fod yn gwneud cynnydd boddhaol mewn gwirionedd tuag at weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. Gellir rhoi sgôr o 10 ar gyfer mwy nag un cylch ymyrryd:

- os aed i'r afael â'r achosion blaenorol o ddiffyg cydymffurfio ond mae achosion gwahanol o ddiffyg cydymffurfio wedi codi;
- os nad yw'r risg gyffredinol wedi cynyddu.

Rhan 3 sgôr 5:

Cofnod da o gydymffurfiaeth. Mae cyngor ar ddiogelwch bwyd ar gael yn fewnol neu ceir mynediad at gyngor technegol gan Awdurdod Cynradd neu Gartref, cymdeithasau masnach a/neu Ganllawiau Arfer Dda neu gynlluniau sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes a gwneir defnydd ohono. Mae peryglon yn cael eu

rheoli'n effeithiol. Hunanwiriadau effeithiol gyda gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu sy'n gymesur â'r math o fusnes. Mae archwiliad gan Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau gyda mân achosion o ddiffyg cydymffurfio y nodwyd nad ydynt yn dyngedfennol o ran diogelwch bwyd.

Haparchwiliadau RBFEC o lwyth allforio

34. Dylai haparchwiliadau gael eu cynnal yn unol â'r math o allforion sy'n cael eu hallforio gan y Gweithredwr Busnes Bwyd ac ar ba raddfa.
35. Dylai haparchwiliadau o lwythi allforio, a'r gweithdrefnau a weithredir gan Weithredwyr Busnesau Bwyd i ddarparu'r wybodaeth berthnasol ar gyfer llwythi allforio, gadarnhau bod y llwyth a archwilir yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y dystysgrif berthnasol. Lle bo agweddau ar hyn yn cael eu darparu drwy archwiliadau ac ardystiadau ategol yn y tarddle, rhaid ystyried hyn a dim ond archwiliadau o agweddau lleol perthnasol ar allforio nwyddau y mae angen eu gwirio. Rhaid i swyddogion arfer eu barn broffesiynol fel y disgrifir yn y ddogfen hon.
36. Dylai archwiliadau ystyried y canlynol:
- a. dilysu bod y cynhwysion yn dod o ffynhonnell briodol, e.e. tystysgrif daliad,
 - b. gwirio cofnodion cynhyrchu perthnasol,
 - c. prosesau hylendid mewn perthynas â chynhyrchu,
 - d. y ffordd y mae'r llwyth wedi'i becynnu a'i labelu,
 - e. trefniadau storio,
 - f. cyfleusterau baeau anfon,
 - g. sut y caiff llwyth ei lwytho i mewn i gynhwysydd neu ar ddull cludo bwriadedig.
 - h. sut y caiff seliau masnachol eu cymhwyso a'u cofnodi, os caiff y llwyth ei ardystio.
37. Rhaid cofnodi haparchwiliadau, eu canlyniad a chanfyddiadau cysylltiedig. Rhaid i haparchwiliadau lywio a diweddarau'r Aseiad Risg o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd fel y bo'n briodol.
38. Rhaid i gofnodion gael eu cadw gan y Swyddog Ardystio priodol, neu'r tîm sy'n gyfrifol am Ardystio Allforion am dair blynedd o leiaf.

Rhwymedigaethau Cyffredinol a materion eraill

39. Rhaid i Swyddogion Ardystio gymryd rhagofalon rhesymol a gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy pan fyddant yn dibynnu ar wybodaeth a roddir gan yr allforiwr, neu drydydd partïon eraill, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac y gellir ei dilysu³.
40. Gall y 'Nodiadau Cyfarwyddyd' a gyhoeddir gyda'r Dystysgrif Iechyd Allforio gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Dylai Swyddogion Ardystio fynd ar-lein i Gov.UK neu drwy system EHC Ar-lein fel y bo'n briodol i gadarnhau a oes newidiadau, yn enwedig pan fydd dilyniant o dystysgrifau wedi'u rhifo⁴ yn cael eu dal yn lleol yn barod i'w rhoi.
41. Ni chaniateir rhoi tystysgrifau sydd wedi'u llofnodi/stampio ymlaen llaw ac sy'n cynnwys lleoedd gwag i'r allforiwr eu llenwi. Rhaid i dystysgrifau gael eu cwblhau a rhaid rhoi llinell drwy unrhyw flychau neu feysydd gwag perthnasol cyn i'r dystysgrif gael ei llofnodi a'i stampio.

Sicrhau Ansawdd a chofnodion

42. Rhaid i'r Swyddog Ardystio Cymwys ym maes Bwyd gadw cofnodion archwiliadwy. Bydd cofnodion yn cynnig tystiolaeth a mesurau diogelu i'r Swyddog Ardystio mewn achosion lle caiff anghysondeb ei nodi'n ddiweddarach rhwng y llwythi a'r dystysgrif. Bydd angen cofnodion er mwyn diogelu rhag heriau cyfreithiol posibl neu hawliadau posibl am iawndal os caiff llwythi eu gwrthod ar ffin yr UE neu wrth gyrraedd Gogledd Iwerddon.
43. Bydd angen cofnodion er mwyn dangos cydymffurfiaeth yn achos unrhyw archwiliadau a gynhelir gan yr UE.
44. Rhaid i Swyddogion Ardystio Cymwys ym maes Bwyd gadw copi (a all fod yn electronig) o'r Tystysgrifau Iechyd Allforio a roddwyd ac unrhyw ddatganiadau a thystiolaeth i gefnogi'r dystysgrif a roddwyd ar gyfer pob llwyth am o leiaf dair blynedd a gellir gofyn iddynt roi copi o'r Dystysgrif Iechyd Allforio a'r dystiolaeth ategol i APHA ar sail ad hoc.

³ h.y. nad yw'r llwyth wedi gadael ac y gellir ei archwilio o hyd, bod yr allforiwr/Gweithredwr Busnes Bwyd yn cadw cofnodion perthnasol a'u bod ar gael i'w harchwilio, y gellir cadarnhau ardystiadau ategol gyda'r awdurdod dyroddi.

⁴ Gelwir y rhain yn dystysgrifau 'bloc'.

Atodiad I – Datganiad enghreifftiol gan uwch-gynrychiolydd Gweithredwr Busnes Bwyd

Rwyf i, sydd wedi llofnodi isod, yn datgan mai fi yw'r allforiwr/person awdurdodedig perthnasol⁵ ar ran yr allforiwr/Gweithredwr Busnes Bwyd⁵, ar gyfer y nwyddau a nodir yn y datganiad hwn.

Rwyf i⁶ yn gyfrifol / wedi cael fy awdurdodi i lofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am y manylion a ddarperir ac mae gennyf y wybodaeth sydd ei hangen i wneud y datganiad hwn.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn gywir o safbwynt y llwyth(i) y mae angen Tystysgrif Iechyd Allforio arno (arnynt). Ni chaiff y llwyth(i) ei allforio/eu hallforio nes bod y Dystysgrif Iechyd Allforio /Tystysgrifau Iechyd Allforio priodol a phenodol ar gyfer y llwyth(i) wedi cael ei rhoi/eu rhoi.

Rwy'n derbyn cyfrifoldeb llawn am gywirdeb, dilysrwydd a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd gennyf, neu rwyf yn peri iddi gael ei darparu, ac yn derbyn na ellir dal y Swyddog(ion) Ardystio, ei gyflogwr/eu cyflogwyr, ei asiant/eu hasiantau na'r Awdurdod Cymwys perthnasol yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd a all godi o ddarparu wybodaeth yn y datganiad hwn, na'r methiant i roi gwybodaeth gyflawn a/neu gywir a/neu ddilys.

Deallaf y gallai'r gwasanaeth Tystysgrifau Iechyd Allforio gael ei dynnu'n ôl os caiff gwybodaeth anwir ei rhoi, ac y gallai hynny arwain at ddwyn achos troseddol.

Enw (argraffedig):

Statws mewn perthynas â'r busnes allforio:

Llofnod:

Dyddiad:

⁵ Dilêwch fel y bo'n briodol

⁶ Dilêwch fel y bo'n briodol

Atodiad II – Gofynion Tystysgrif yr UE

Rheoliad EU 2017/625 Erthygl 88

Llofnodi a rhoi Tystysgrifau Swyddogol

1. Bydd tystysgrifau swyddogol yn cael eu rhoi gan yr awdurdodau cymwys.
2. Bydd awdurdodau cymwys yn dynodi'r swyddogion ardystio sydd wedi'u hawdurdodi i lofnodi tystysgrifau swyddogol a byddant yn sicrhau bod y swyddogion hyn:
 - (a) yn ddiuedd, yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn benodol nad ydynt mewn sefyllfa a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, effeithio ar ddiueddrwydd eu hymddygiad proffesiynol mewn perthynas â'r hyn sy'n cael ei ardystio;
 - (b) wedi cael hyfforddiant priodol ar y rheolau ar gyfer ardystio cydymffurfiaeth drwy dystysgrif swyddogol ac ar yr asesiad technegol o gydymffurfiaeth â'r rheolau hynny yn ogystal â'r rheolau perthnasol a osodwyd yn y Rheoliad hwn.
3. Bydd tystysgrifau swyddogol yn cael eu llofnodi gan y swyddog ardystio a'u rhoi ar un o'r seiliau canlynol:
 - (a) gwybodaeth uniongyrchol y Swyddog Ardystio am ffeithiau cyfredol a data sy'n berthnasol i ardystio a geir drwy:
 - (i) rheolaeth swyddogol; neu
 - (ii) cael tystysgrif swyddogol arall a roddwyd gan yr awdurdodau cymwys;
 - (b) ffeithiau a data sy'n berthnasol i ardystio, a gafwyd gan berson arall a awdurdodwyd at y diben hwnnw gan yr awdurdodau cymwys ac sy'n gweithredu o dan eu rheolaeth, ar yr amod bod y swyddog ardystio yn gallu dilysu cywirdeb ffeithiau a data o'r fath;
 - (c) ffeithiau a data sy'n berthnasol i ardystio a gafwyd o systemau rheolaeth y gweithredwyr eu hunain, wedi'u hategu ac wedi'u cadarnhau gan ganlyniadau rheolaethau swyddogol rheolaidd, lle mae'r swyddog ardystio wedi'i fodloni felly y

cydymffurfir â'r amodau ar gyfer rhoi'r dystysgrif swyddogol.

4. Bydd tystysgrifau swyddogol yn cael eu llofnodi gan y swyddog ardystio a'u rhoi ar sail pwynt (a) o baragraff 3 o'r Erthygl hon yn unig pan fydd y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) yn ei gwneud yn ofynnol gwneud hynny.

Rheoliad UE 2017/625 Erthygl 89

Gwarantau am ddibynadwyedd tystysgrifau swyddogol

1. Bydd tystysgrifau swyddogol:

(a) yn dwyn cod unigryw;

(b) yn peidio â chael ei llofnodi gan y swyddog ardystio lle maent yn wag neu'n anghyflawn;

(c) yn cael eu paratoi mewn un neu fwy o ieithoedd swyddogol sefydliadau'r Undeb a ddeallir gan y swyddog ardystio a, lle y bo'n berthnasol, yn un o ieithoedd swyddogol yr Aelod-wladwriaeth sy'n derbyn;

(ch) yn ddilys ac yn gywir;

(d) yn ei gwneud yn bosibl i adnabod y person a'u llofnododd a'r dyddiad dyroddi;

(dd) yn ei gwneud yn bosibl i ddilysu'n hawdd y cysylltiadau rhwng y dystysgrif, yr awdurdod dyroddi a'r llwyth, lot neu anifail neu nwydd unigol a gwmpesir gan y dystysgrif.

2. Bydd yr awdurdodau cymwys yn cymryd pob cam priodol i atal tystysgrifau swyddogol ffug neu gamarweiniol rhag cael eu rhoi neu atal tystysgrifau swyddogol rhag cael eu camddefnyddio.

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (2019/628) yr UE Erthygl 3

Gofynion ar gyfer tystysgrifau swyddogol enghreifftiol nas cyflwynir mewn System Reoli Integredig ar gyfer Rheolaethau Swyddogol)

Bydd tystysgrifau swyddogol enghreifftiol ar gyfer anifeiliaid, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, cynhyrchion cyfansawdd, cynhyrchion egino, sgil-gynhyrchion anifeiliaid, blagur a hadau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu blagur sy'n dod o drydydd gwledydd neu ranbarthau ohonynt sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth yr Undeb er mwyn dod i mewn i'r Undeb ac nas cyflwynir mewn System Reoli Integredig ar gyfer Rheolaethau Swyddogol yn bodloni'r gofynion canlynol:

- (1) Yn ogystal â llofnod y swyddog ardystio, bydd y dystysgrif yn dwyn stamp swyddogol. Bydd yn rhaid i liw'r llofnod fod yn wahanol i'r lliw argraffu. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn gymwys i stampiau heblaw am y rhai sydd wedi'u boglynnu neu wedi'u dyfrnodi.
- (2) Pan fydd y dystysgrif enghreifftiol yn cynnwys datganiadau, bydd y swyddog ardystio yn rhoi llinell drwy'r datganiadau nad ydynt yn berthnasol, eu blaenlythrennu a'u stampio neu'n eu tynnu'n gyfan gwbl o'r dystysgrif.
- (3) Bydd y dystysgrif yn cynnwys:
 - (a) un ddalen; neu
 - (b) sawl dalen lle mae pob dalen yn anwahanadwy ac yn ffurfio cyfanrwydd; neu

- (c) dilyniant o dudalennu wedi'u rhifo er mwyn dangos bod tudalen benodol mewn dilyniant penodol.
- (4) Pan fydd y dystysgrif yn cynnwys dilyniant o dudalennau, bydd pob tudalen yn cynnwys y cod unigryw y cyfeirir ato yn Erthygl 89(1)(a) o Reoliad 2017/625 yr UE ac yn dwyn llofnod y swyddog ardystio a'r stamp swyddogol.
- (5) Bydd y dystysgrif yn cael ei rhoi cyn bod y llwyth y mae'n ymwneud ag ef yn gadael rheolaeth awdurdodau cymwys y drydedd wlad sy'n rhoi'r dystysgrif.